**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/MDFWL/0003/25

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

13 Ionawr 2025

Annwyl Buffy

**Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ei waith craffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2024.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Rwyf wedi nodi ymateb y Llywodraeth i argymhellion y Pwyllgor yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth sydd ynghlwm yn helpu i lywio eich gwaith craffu pellach wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy Gyfnod 2.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau'r Pwyllgor ar fanylion y ddeddfwriaeth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD**

## Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

## Ymateb y Llywodraeth i argymhellion Adroddiad Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau ategol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Bod y Senedd yn derbyn egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r argymhelliad hwn ac yn galw ar Aelodau'r Senedd i gytuno i Brif Egwyddorion y Bil yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Ionawr. |
| **Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyflwyno Asesiad Effaith manylach o'r gweithlu. Dylid datblygu hwn drwy ymgysylltu â'r sector addysg, a'i gynrychiolwyr o'r gweithlu, mewn ffordd ystyrlon. Dylid defnyddio'r Asesiad hwn wrth ddatblygu Cynllun y Gweithlu ac yna dylid ei ddiweddaru yng ngoleuni Cynllun y Gweithlu. (Gweler Argymhelliad 3). | Derbyn | Na | Oes | Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ailystyried yr asesiad effaith o lwyth gwaith sydd yn yr Asesiad Effaith Integredig (ac a gaiff ei ddiweddaru ar ddiwedd Cyfnod 2). Byddwn yn ymgysylltu â'r sector addysg, a'i gynrychiolwyr o'r gweithlu wrth lunio'r asesiad hwn.<br><br>Rydym yn cydnabod bod capasiti y gweithlu i wireddu gofynion y Bil yn gonsyrn teilwng. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i weithio ac ymgysylltu yn barhaus gyda'r sector wrth roi'r Bil ar waith. Byddwn yn cyflwyno gwelliannau ynghylch y camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau fod yna weithlu digonol i wireddu'r targedau ynghylch darpariaeth addysg Gymraeg a gaiff eu gosod ar awdurdodau lleol. |
| **Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun gweithlu addysg statudol sy'n cynnwys targedau, ac amserlen, ar gyfer recriwtio a chadw. Dylai'r cynllun gweithlu hwn gwmpasu pob agwedd ar y gweithlu addysg, | Derbyn mewn egwyddor | Oes | Oes | Rydym yn derbyn mor bwysig yw'r gweithlu i gyflawni ein hymrwymiadau a'n dyheadau o ran cyrhaeddiad addysgol, gan gynnwys ym maes addysgu Cymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn derbyn bod amrywiaeth o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw sy'n cynnwys dysgu proffesiynol o ansawdd uchel, mynediad at gymorth, llwyth gwaith, arweinyddiaeth a data. Bydd gwella'r gefnogaeth i'r gweithlu yn helpu i wella addysgu a dysgu, ynghyd â llesiant staff ysgol, a lefelau recriwtio a chadw. Rydym yn derbyn bod angen i unrhyw gynllun gweithlu gydnabod rôl athrawon a staff cymorth ysgolion fel |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau ategol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| gan edrych yn benodol ar feysydd lle mae prinder, yn ogystal â'r angen tebygol yn y dyfodol, a'r ffyrdd yr eir i'r afael â'r angen hwn. Dylai ystyried yr amrywiadau ledled Cymru. | | | | rhan o ecosystem ysgol, yn ogystal â rhai rolau arbenigol. Rydym yn derbyn ymhellach y dylai unrhyw gynllun gweithlu ystyried yr amrywiadau ledled Cymru, a chydnabod rolau allweddol llywodraethwyr ac awdurdodau lleol fel cyflogwyr.<br><br>Mae angen datblygu unrhyw gynllun gweithlu mewn trafodaeth agos gyda'n partneriaid yng nghyd-destun ein hymrwymiadau o ran partneriaeth gymdeithasol, ac yn arbennig gyda chyflogwyr. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn bwriadu datblygu cynllun strategol y gweithlu addysg ar gyfer y sector addysg gyfan i wella lefelau recriwtio a chadw, llesiant ac addysgu a dysgu o ansawdd uchel, ac sydd hefyd yn cydnabod yr hyblygrwydd sydd ei angen mewn gwahanol rannau o Gymru i fynd i'r afael â gwahanol flaenoriaethau lleol, gan gynnwys o gwmpas ystod o bynciau blaenoriaeth. O ganlyniad i'r angen hwn am hyblygrwydd ac i ddiogelu at y dyfodol, bydd ein cynllun arfaethedig yn un anstatudol.<br><br>Byddwn yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil mewn perthynas â'r camau sydd i'w cymryd i sicrhau bod gweithlu digonol i gyflawni'r targedau o ran darpariaeth Gymraeg a fydd yn cael eu gosod ar awdurdodau lleol drwy'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg. |
| **Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn ceisio sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gliriach yn y diffiniad o addysg Gymraeg. | Derbyn | Na | Oes | Mae adran 8(2) o'r Bil yn nodi mai'r hyn a olygir gan 'addysg Gymraeg' yw addysgu'r Gymraeg ac addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi gyfyngu i ysgolion a gynhelir, i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol.<br><br>Mae paragraff 3.116 o'r Memorandwm Esboniadol yn ategu hyn, gan bwysleisio mai ystyr 'addysgu'r Gymraeg' yw addysgu'r Gymraeg fel pwnc.<br><br>Byddwn yn ystyried a oes lle i ychwanegu at yr eglurder hwn yn y Memorandwm Esboniadol. Rydyn ni'n rhagweld y bydd yn briodol |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau ategol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rhoi enghreifftiau ymarferol mewn canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru maes o law i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol yn y broses o gategoreiddio ysgolion. |
| **Argymhelliad 5.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o eglurder am bob un o'r categorïau iaith, yn enwedig y swm tebygol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y categorïau ysgolion 'Prif Iaith – Cymraeg' ac ysgolion 'Dwy Iaith'. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru hefyd roi mwy o eglurder o ran yr hyn y mae'r categori ysgol 'Dwy Iaith' yn ei olygu. Yn ogystal, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried y dystiolaeth a'r safbwyntiau a glywsom yn galw am gategori ychwanegol i adlewyrchu'r categori 3P anstatudol presennol. | Derbyn | Na | Oes | Byddwn yn ychwanegu at y Memorandwm Esboniadol a'r Datganiad o Fwriad Polisi i ddarparu rhagor o eglurder ynghylch yr amrediadau yr ydyn ni'n rhagweld y byddwn ni'n ymgynghori arno wrth lunio'r rheoliadau.<br><br>Rydyn ni o'r farn ei bod yn well manylu amrediad y categorïau mewn rheoliadau, gan y bydd hyn yn ein galluogi i gynyddu'r canrannau hyn os yw'n briodol drwy reoliadau pellach, yn hytrach na bod angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud hynny. |
| **Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir pa weithgareddau ysgol a fyddai'n cyfrif tuag at gyrraedd yr isafswm o 10 y cant o ddarpariaeth Gymraeg. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi a yw'n dal i fwriadu cynyddu'r swm o addysg a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i addysgu'r Gymraeg fel pwnc. | Derbyn | Na | Oes | Byddwn yn ychwanegu at y Memorandwm Esboniadol i ddarparu rhagor o eglurder am ystyr 'sesiynau ysgol' a'r hyn sy'n gynwysedig.<br><br>Mae adran 10(2) yn dweud y bydd y categorïau yn cyfeirio at yr addysg Gymraeg fel canran o'r addysg a hyfforddiant a ddarperir dros flwyddyn ysgol <u>yn ystod sesiynau ysgol</u> ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol.<br><br>Mae adran 10(5) yn dweud mai ystyr "sesiynau ysgol" yw sesiynau ysgol sy'n dechrau ac yn dod i ben ar yr amserau hynny a benderfynir o bryd i'w gilydd yn unol ag adran 32C o Ddeddf Addysg 2002. Mae diwrnod ysgol fel arfer yn cynnwys dwy sesiwn, |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau ategol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gydag egwyl yn y canol. Bydd y ddarpariaeth Gymraeg o fewn y sesiynau ysgol hynny yn cyfrif tuag at y 10 y cant.<br><br>Wrth baratoi Canllawiau o dan adran 46 y Bil, bydd y Llywodraeth yn ystyried cynnwys enghreifftiau o weithgareddau ysgol fyddai'n cyfrif tuag at gyrraedd yr isafswm o 10% o ddarpariaeth Gymraeg.<br><br>Mater i ysgolion unigol yw penderfynu sut y maent am ddarparu'r addysg Gymraeg o fewn y sesiynau ysgol. A bydd hynny i'w fanylu ganddynt yn eu Cynllun Cyflawni.<br><br>Yn ymarferol, rhagwelir y bydd ysgolion sy'n darparu 10 y cant yn gwneud hynny drwy addysgu'r Gymraeg fel pwnc – gan gofio bod hynny'n elfen fandadol o'r cwricwlwm. Wrth i ysgolion ddarparu canran gynyddol o'u haddysg yn Gymraeg, mae'n rhesymol tybio y bydd mwyfwy o'r ganran honno yn 'addysg drwy gyfrwng y Gymraeg'. |
| **Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a ellir ymgorffori'r Cynlluniau Cyflawni Addysg Gymraeg yn y Cynlluniau Datblygu Ysgolion presennol, neu a fydd rhaid i ysgolion lunio cynlluniau annibynnol ar wahân. | Derbyn | Na | Oes | Byddwn yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol i egluro'r rhyngberthynas rhwng Cynlluniau Datblygu Ysgol a Chynlluniau Cyflawni Addysg Gymraeg.<br><br>Er bod y Cynlluniau Cyflawni a'r Cynlluniau Datblygu Ysgol yn deillio o wahanol ddarpariaethau deddfwriaethol, caiff ysgolion ymgorffori'r cynllun o fewn eu Cynllun Datblygu Ysgol – does dim i atal ysgolion rhag gwneud hyn. Bydd cyfle i ganllawiau esbonio hyn i ysgolion, a byddwn yn cyd-lunio templedi ar gyfer y cynlluniau cyflawni gydag ysgolion ac awdurdodau lleol.<br><br>Mae'r cynlluniau cyflawni yn cael eu sefydlu am y tro cyntaf drwy'r ddeddfwriaeth gynradd hon. Mae Cynlluniau Datblygu Ysgol yn deillio o Reoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014. |

| **Argymhelliad** | **Ymateb y Llywodraeth** | **Newid i'r Bil** | **Newid i'r dogfennau ategol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl y sector addysg drydyddol er mwyn cyflawni'r Fframwaith Cenedlaethol. Wrth wneud hynny, dylai nodi pa rôl y bydd Medr yn ei chwarae. Gellid gwneud hyn ym Memorandwm Esboniadol y Bil. | Derbyn | Na | Oes | Byddwn yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol i egluro rôl y sector addysg drydyddol yng nghyd-destun y Fframwaith Cenedlaethol. |
| **Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir diwygio'r Bil i gynnwys addysg drydyddol yn y diffiniad o addysg Gymraeg at ddiben y Fframwaith Cenedlaethol. | Derbyn | Oes | Oes | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad ac wedi ystyried cynnwys addysg drydyddol yn y diffiniad o addysg Gymraeg. Rydym o'r farn y dylai'r Bil wneud yn glir fod addysg drydyddol yn cael ei gwmpasu gan y Fframwaith Cenedlaethol, a byddwn yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw. |
| **Argymhelliad 10.** Bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau darpariaethau'r Bil ar Gynlluniau Strategol Lleol i sicrhau eu bod yn ystyried gwasanaethau ieuenctid a mecanweithiau eraill i annog cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. | Derbyn mewn egwyddor | Na | Oes | Rydyn ni'n cytuno bod sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned yn hollbwysig, ond yn credu nad y Cynlluniau Strategol Lleol y Gymraeg mewn Addysg yw'r offeryn priodol i fanylu ar y camau a gymerir i'r perwyl hwn. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai fod risg o golli ffocws y Cynlluniau Strategol lleol y Gymraeg mewn Addysg pe byddent yn ymestyn y tu hwnt i ddefnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion.<br><br>Yn hytrach, rôl Strategaethau Hybu'r Gymraeg yr awdurdodau lleol, a baratoir yn unol a'r Safonau Hybu o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn lleol.<br><br>Bydd yr adolygiad o safonau'r Gymraeg sydd i'w gynnal yn unol ag adran 4 o'r Bil yn gyfle i Weinidogion Cymru benderfynu a oes angen diwygio'r safonau hybu. Mae adran 4 yn benodol yn darparu fod rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r safonau gyda golwg ar benderfynu a oes angen diwygio un neu ragor o safonau hybu'r Gymraeg er mwyn hwyluso cyflawni targed a bennir yn Rhan 1 y |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau ategol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bil. Mae'r targedau hynny yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol.<br><br>Byddwn yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol i esbonio'r gyd-berthynas rhwng y Cynlluniau Strategol Lleol y Gymraeg mewn Addysg a Strategaethau Hybu'r Gymraeg. |
| **Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ynghylch rôl yr Athrofa Genedlaethol yng nghyd-destun y sector addysg drydyddol ehangach, yn enwedig sut y bydd rolau Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Athrofa Genedlaethol yn rhyngweithio. | Derbyn | Na | Oes | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dylid rhoi mwy o eglurder ynghylch rôl yr Athrofa Genedlaethol yng nghyd-destun y sector addysg drydyddol. Bydd hyn yn cael ei wneud yn y Memorandwm Esboniadol. |